
Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**

# Llawlyfr y Cynulliad









**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:**

Y Llinell Wybodaeth: 029 2089 8200

Y Llinell Archebu: 029 2089 8477

Ffôn Testun: 029 2089 8261

Gallwch ofyn am gopi o'r llyfryn gwybodaeth hwn ar y ffurfiau canlynol hefyd:

Print bras • Braille • Cryno ddisg (CD) • Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Gellir ei weld ar ffurf electronig hefyd yn yr ieithoedd a ganlyn drwy ymweld ag www.cymru.gov.uk:

Almaeneg • Arabeg • Bengali • Cantoneg • Cymraeg • Eidaleg • Farsi
Ffrangeg • Gwjarati • Hindi • Iseldireg • Japaneg • Portiwgaleg
Saesneg • Sbaeneg • Somalieg • Swahili • Wrdw

Gellir cael cyfieithiad dros y ffôn mewn hyd at 60 o ieithoedd ar gyfer pobl sy'n siarad iaith arall ar wahân i Gymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Er mwyn defnyddio'r gwasanaeth hwn, ffoniwch 029 2089 8200 a nodwch yr iaith o'ch dewis. Byddwch yn cael eich cysylltu â chyfieithydd.

E-bost (cyffredinol): gwybodaeth@cymru.gsi.gov.uk

E-bost (archebu): archebu@cymru.gsi.gov.uk

Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

I gael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan y Cynulliad:
**www.cymru.gov.uk**

Gwyliwch y Cynulliad yn fyw ar y we:
**www.gweddarlledu.cymru.gov.uk**

APS/017/8/03.06

Rhif ISBN: 0 7504 9724 6

Hawlfraint y Goron 2006

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cefndir y Cynulliad** | 4 |
| **Y Cynulliad** | 4 |
| **Dyfodol y Cynulliad** | 4 |
| **Y Senedd** | 5 |
| **Sut caiff y Cynulliad ei ethol** | 6 |
| **Etholaethau a rhanbarthau etholiadol** | 7 |
| **Pwy yw pwy yn y Cynulliad** | 8 |
| Y Llywydd | 8 |
| Y Prif Weinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru | 8 |
| **Y Cyfarfod Llawn** | 9 |
| **Y Siambr** | 10 |
| **Rôl y Pwyllgorau'r Cynulliad** | 10 |
| Y Pwyllgorau Pwnc | 10 |
| Y Pwyllgorau Sefydlog | 11 |
| Y Pwyllgor Busnes | 11 |
| Pwyllgor y Tŷ | 11 |
| Y Pwyllgorau Rhanbarth | 11 |
| Pwyllgorau Ychwanegol | 11 |
| Gweithio ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin | 11 |
| **Mynediad i'r Cynulliad** | 12 |
| Y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau | 12 |
| Darlledu trafodion y Cynulliad | 12 |
| Canolfannau Ymwelwyr ac Arddangosfeydd | 12 |
| Y Cynulliad yn y Rhanbarthau | 12 |






## Cefndir y Cynulliad

Ym mis Gorffennaf 1997, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn, *Llais dros Gymru*, a oedd yn amlinellu ei chynigion ar gyfer datganoli yng Nghymru. Cafodd y cynigion hynny eu cadarnhau yn y refferendwm ar 18 Medi 1997. Yn dilyn hynny, pasiodd y Senedd Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a arweiniodd at sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ganlyniad i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 trosglwyddwyd pwerau a chyfrifoldebau datganoledig Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Ers hynny, mae amryw o Ddeddfau Seneddol wedi rhoi pwerau newydd i'r Cynulliad.

## Y Cynulliad

Mae'r Cynulliad yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ac yn dosbarthu'r arian sy'n dod iddo gan Drysorlys Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn unol â'i bwerau datganoledig, mae'r Cynulliad yn datblygu polisïau ac yn cymeradwyo deddfwriaeth sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru. Mae'r penderfyniadau ar y materion hyn yn cael eu gwneud gan y rhai hynny a etholwyd i'w swyddi gan bobl Cymru. Mae Cymru yn dal yn rhan o'r DU, a bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Aelodau Seneddol o etholaethau Cymru yn cadw'u seddau yn San Steffan o hyd. Mae deddfau sy'n cael eu pasio yn San Steffan yn dal yn berthnasol i Gymru.

Mae llunio is-ddeddfwriaeth, sy'n nodi sut y bydd darpariaethau Deddf Seneddol yn berthnasol, yn un o brif swyddogaethau'r Cynulliad. Mae'r Ddeddf gychwynnol a basiwyd gan Senedd San Steffan yn nodi pwerau'r Cynulliad i lunio is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn golygu y gall Deddf Seneddol gael effaith wahanol yng Nghymru i'r hyn a gaiff yn Lloegr. Er enghraifft, ar 1 Hydref 2004 pennodd y Cynulliad ei gyfraddau ei hun ar gyfer taliadau presgripsiwn yng Nghymru, sy'n wahanol i'r taliadau a godir yn Lloegr.

## Dyfodol y Cynulliad

Ar hyn o bryd, pwerau cyfyngedig yn unig sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'r strwythur yn anarferol gyda'r canghennau llywodraethol (gweithredol) a seneddol (deddfwriaethol) wedi'u huno fel corff corfforaethol[1] o dan y teitl cyffredinol 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru'. Yn y rhan fwyaf o gyrff seneddol, gan gynnwys San Steffan a Senedd yr Alban, mae'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa ar wahân o safbwynt cyfreithiol.

Ar 17 Gorffennaf 2005, cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Bapur Gwyn yn dwyn y teitl 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru'. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion y Llywodraeth ar gyfer deddfwriaeth i newid y darpariaethau sydd yn Neddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd mewn tair ffordd:

- creu strwythur gweithredol newydd i'r Cynulliad;
- cynyddu pwerau deddfwriaethol y Cynulliad;
- diwygio'r system etholiadol.

Bydd hyn yn golygu gwahanu senedd a llywodraeth y Cynulliad yn ffurfiol. Mae'r Mesur yn cael ei drafod yn y Senedd ar hyn o bryd a disgwylir iddo ddod





yn Ddeddf erbyn diwedd 2006. Os caiff ei basio ar ffurf debyg i'r ffurf arfaethedig, bydd y newidiadau i'r Cynulliad yn dod i rym ar ôl yr etholiadau nesaf a gynhelir ar 3 Mai 2007.

Yn y cyfamser, mae'r Cynulliad wedi dechrau gwneud newidiadau o fewn y ddeddfwriaeth bresennol. Yn benodol, dechreuwyd ar y gwaith o wahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa gymaint ag sy'n bosibl. Bydd hyn yn ei wneud yn haws i bobl ddeall rolau'r Cynulliad a'r Llywodraeth, ac yn helpu i gynyddu atebolrwydd democrataidd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Papur Gwyn a'r Mesur ar Wefan Swyddfa Cymru **www.walesoffice.gov.uk**

(1) Corff corfforaethol = mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y 60 aelod a etholir yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bob pedair blynedd) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (aelodau a ddewisir o'r blaid/pleidiau mwyafrifol) yn golygu'r corff corfforaethol y cyfeirir ato fel 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

## Y Senedd

Mae adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Senedd, ar safle amlwg a nodedig ar lan y dŵr ym Mae Caerdydd.  Mae'r adeilad trawiadol, unigryw hwn, a gynlluniwyd gan Bartneriaeth Richard Rogers, yn cynrychioli gwerthoedd craidd y Cynulliad, sef bod yn agored ac yn dryloyw.

Cynlluniwyd yr adeilad gyda'r nod o sicrhau safonau uchel o ran perfformiad amgylcheddol.  Defnyddir technolegau adnewyddadwy er mwyn sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosib o ynni'n cael ei ddefnyddio a bod cyn lleied ag sy'n bosib o wastraff yn cael ei gynhyrchu.  Defnyddiwyd deunyddiau o Gymru yn yr adeilad.



# Sut caiff y Cynulliad ei ethol

Ceir 60 Aelod Cynulliad (AC). Cynhelir etholiadau bob pedair blynedd ac mae gan bob etholwr ddwy bleidlais.


Mae 40 o'r 60 Aelod yn cynrychioli etholaethau, ac fe'u hetholir drwy system 'y cyntaf i'r felin', sef yr un broses a ddefnyddir i ethol Aelodau Seneddol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae 20 Aelod arall yn cynrychioli rhanbarthau sy'n seiliedig ar ffiniau etholaethau Senedd Ewrop. Caiff yr Aelodau Rhanbarthol eu hethol drwy'r System Aelodau Ychwanegol. Mae'r system hon yn anelu at sicrhau bod cyfanswm nifer y seddi sydd gan bob plaid yn adlewyrchu cyfran y bleidlais a dderbyniwyd gan bob plaid.

Mae pob rhanbarth etholiadol yn cynnwys rhwng 7 a 9 etholaeth. Etholir 4 Aelod Cynulliad rhanbarthol ar gyfer pob un o'r 5 rhanbarth.

Y 5 rhanbarth etholiadol hyn yw:

- Gogledd Cymru;
- Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Dwyrain De Cymru;
- Gorllewin De Cymru;
- Canol De Cymru.





Ffin Etholaeth Cynulliad


Ffin Rhanbarth Etholiadol

# Etholaethau a rhanbarthau etholiadol









# Pwy yw Pwy yn y Cynulliad

## Y Llywydd

Caiff y Llywydd ei ethol gan holl Aelodau'r Cynulliad. Ar ôl ei ethol, bydd y Llywydd yn gwasanaethu'r Cynulliad yn ddiduedd. Caiff y Dirprwy Lywydd ei ethol yn yr un ffordd.

Prif swyddogaeth y Llywydd yw cadeirio'r Cyfarfod Llawn, cadw trefn ac amddiffyn hawliau Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Llywydd yn gyfrifol am sicrhau bod materion yn cael eu trin yn gyfartal ac yn ddiduedd. Mae'r Llywydd hefyd yn gyfrifol am y Rheolau Sefydlog[2] a chanddo ef mae'r gair olaf ynghylch eu dehongliad.

Mae'r Llywydd hefyd yn cadeirio cyfarfodydd Panel y Cadeiryddion, lle trafodir gweithdrefnau pwyllgorau a materion sy'n effeithio ar fusnes pwyllgorau gyda Chadeirydd pob Pwyllgor.

## Y Prif Weinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae 60 Aelod y Cynulliad yn dirprwyo eu pwerau gweithredol gan gynnwys gweithredu polisïau a deddfwriaeth i'r Prif Weinidog, a etholir gan y Cynulliad cyfan ac sydd fel rheol felly'n cynrychioli'r blaid neu'r pleidiau gwleidyddol mwyaf. Mae'r Prif Weinidog yn ei dro yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am gyflawni'r swyddogaethau gweithredol i Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n ffurfio'r Cabinet.

Y Cabinet sy'n gwneud llawer o benderfyniadau'r Cynulliad o ddydd i ddydd, ac mae'r Gweinidogion yn gyfrifol am wahanol feysydd pwnc:

- Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- Menter, Arloesi a Rhwydweithiau;
- Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad;
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon; a
- Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Mae'r Cabinet yn atebol i'r Cynulliad, sy'n craffu ar ei benderfyniadau a'i weithredoedd.

(2) Rheolau Sefydlog = y rheolau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n eu dilyn.

# Y Cyfarfod Llawn



Cyfarfod o holl Aelodau'r Cynulliad yw'r Cyfarfod Llawn a gynhelir yn y Siambr. Y cyfarfodydd hyn yw fforwm gwneud penderfyniadau a llunio deddfau'r Cynulliad. Cynhelir y Cyfarfod Llawn ar brynhawniau Mawrth a Mercher. Mae'n agored i'r cyhoedd ac yn cael ei ddarlledu'n fyw ar S4C 2.

Bydd y Llywydd yn cyhoeddi agenda ar gyfer pob cyfarfod ymlaen llaw. Trafodir yr eitemau yn y drefn y maent yn ymddangos ar yr agenda. Pan fo'r Cynulliad yn cyfarfod, caiff o leiaf 45 munud ei neilltuo bob wythnos ar gyfer cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog. Mae pob Gweinidog hefyd yn ymateb i gwestiynau llafar o leiaf unwaith bob pedair wythnos. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn trafod y materion sydd ar yr agenda ac yn pleidleisio ar y cynigion sydd gerbron.

Gyda chaniatâd y Llywydd, gall Aelod Cynulliad gynnig bod y Cynulliad yn ystyried ar unwaith fater brys sydd o bwys cyhoeddus. Gall Aelod Cynulliad hefyd roi pwnc gerbron ar gyfer Dadl Fer cyn diwedd Cyfarfod Llawn.

Mae amser wedi ei neilltuo, o fewn cylch Cyfarfodydd Llawn blynyddol y Cynulliad, i ystyried categorïau arbennig o waith y Cynulliad, megis:

- cyllideb y Cynulliad;
- cynigion a wneir ar ran grwpiau gwleidyddol nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar Gabinet y Cynulliad;
- adroddiadau a gyflwynwyd gan Bwyllgorau Pwnc a Phwyllgorau Rhanbarth; a
- materion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd.







# Y Siambr

Mae sedd wedi ei neilltuo ar gyfer pob Aelod Cynulliad ynghyd â chyfrifiadur sgrin gyffwrdd y gallant ei ddefnyddio yn ystod trafodaethau.  Mae system 'Gwe'r Siambr' yn caniatáu i Aelodau Cynulliad ddefnyddio e-bost a chael gwybodaeth ar ffurf electronig yn y Siambr.

Mae'r Cynulliad yn gwbl ddwyieithog a gall yr Aelodau ddewis siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.  Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ym mhob Cyfarfod Llawn ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau.

Mae'r Aelodau'n pleidleisio drwy bwyso botymau ar gonsol sydd ar eu desgiau. Gallant ddewis pleidleisio "o blaid" neu "yn erbyn", neu "ymatal". Dangosir y canlyniadau ar unwaith ar sgriniau yn y Siambr.

Cynhyrchir Cofnod gair am air o'r trafodion ar gyfer pob Cyfarfod Llawn a Phwyllgor Pwnc ac ar gyfer rhai Pwyllgorau Sefydlog, wedi ei olygu er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb ac osgoi ailadrodd diangen. Mae hon yn ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer gwybodaeth a gall unrhyw un ei defnyddio. Cyhoeddir trawsgrifiadau cwbl ddwyieithog o'r trafodion ar y rhyngrwyd cyn pen 24 awr o ddiwedd pob Cyfarfod Llawn. Gallwch wneud cais hefyd am wybodaeth mewn print bras, mewn Braille neu ar gryno ddisg (CD).

Gellir gweld Cofnod y Trafodion ar wefan y Cynulliad: **www.cymru.gov.uk/keypubrecordproceedings/index.htm**

# Rôl Pwyllgorau'r Cynulliad

Grŵp o Aelodau Cynulliad sy'n cyfarfod yn rheolaidd i graffu ar bolisïau a deddfwriaeth yw Pwyllgor. Mae Aelodaeth y Pwyllgorau fel rheol yn adlewyrchu'r 'cydbwysedd rhwng y pleidiau' sef nifer yr Aelodau Cynulliad sy'n cynrychioli pob plaid yn y Cynulliad. Mae'r rhan fwyaf o'r pwyllgorau'n cyfarfod yn gyhoeddus. Y Pwyllgorau sy'n cyfarfod yn breifat yw'r Pwyllgor Busnes a Phwyllgor y Tŷ. Mae Pwyllgor y Tŷ yn cyfarfod yn gyhoeddus unwaith y flwyddyn. Gall y Pwyllgor Safonau hefyd benderfynu trafod cwyn yn breifat.  Mae pwyllgorau eraill yn cyfarfod yn breifat yn achlysurol er mwyn ystyried eitemau penodol ar yr agenda.

## Y Pwyllgorau Pwnc

Mae'r Pwyllgorau Pwnc yn helpu i ddatblygu polisïau, cynnig cyngor ynglŷn â deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd ac yn craffu ar waith Gweinidogion. Gall Aelodau Cynulliad o bob plaid drafod materion a mynegi eu barn ar sut mae'r Cynulliad yn gweithio. Mae pob Pwyllgor Pwnc yn cyfateb i bortffolio un o Weinidogion y Cabinet sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor.

Mae Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad yn canolbwyntio ar:

- Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- Menter, Arloesi a Rhwydweithiau;
- Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad;
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon; a
- Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

## Y Pwyllgorau Sefydlog

Y pum Pwyllgor Sefydlog yw:

- Y Pwyllgor Archwilio – sy'n edrych ar effeithiolrwydd y defnydd a wneir o adnoddau'r Cynulliad;
- Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal – sy'n edrych ar weithgareddau'r Cynulliad i hybu cyfle cyfartal i bawb;
- Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol – sy'n canolbwyntio ar faterion yr Undeb Ewropeaidd sy'n effeithio ar Gymru a rôl ehangach 'Cymru yn y byd';
- Y Pwyllgor Deddfau – sy'n craffu ar ddeddfwriaeth a roddir gerbron y Cynulliad;
- Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – sy'n goruchwylio safonau ymddygiad Aelodau Cynulliad ac yn edrych ar gwynion yn ymwneud ag achosion honedig o gamymddwyn neu o dorri rheolau.

## Y Pwyllgor Busnes

Mae'r Pwyllgor Busnes, sy'n cynnwys un Aelod Cynulliad o bob Plaid, yn rhoi cyngor i'r Trefnydd o ran rheoli busnes y Cynulliad; yn rhoi cyngor i'r Dirprwy Lywydd ar weithdrefnau'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth; ac yn ystyried arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad wrth gynnal ei fusnes.

## Pwyllgor y Tŷ

Mae'r Cynulliad wedi dirprwyo pwerau gweithredol i Bwyllgor y Tŷ. Mae'r Dirprwy Lywydd yn cadeirio'r Pwyllgor hwn, sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â gwasanaethau i Aelodau. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

- gwasanaethau, cyfleusterau ac adeiladau;
- lwfansau Aelodau;
- materion cysylltiedig sy'n hwyluso gwaith y Cynulliad.

## Y Pwyllgorau Rhanbarth

Ceir pum Pwyllgor Rhanbarth. Mae pob Pwyllgor Rhanbarth yn cynnwys Aelodau Cynulliad sy'n cynrychioli Etholaethau Lleol a Rhanbarthau. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn gwrando ar farn gwahanol gymunedau er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn cynrychioli Cymru gyfan.

## Pwyllgorau Ychwanegol

Gall y Cynulliad benderfynu sefydlu pwyllgorau ychwanegol dros dro i ystyried materion penodol o fewn cylchoedd gorchwyl y mae'r Cynulliad wedi cytuno arnynt, er enghraifft y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus a'r Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion.

## Gweithio ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin

Mae'r Rheolau Sefydlog yn Nhŷ'r Cyffredin ac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn caniatáu gwaith ar y cyd rhwng Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin a rhai o bwyllgorau'r Cynulliad.







# Mynediad i'r Cynulliad

## Y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd ddod i'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd Pwyllgorau sy'n agored i'r cyhoedd. Cynhelir y Cyfarfod Llawn a'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Pwyllgorau Sefydlog a'r Pwyllgorau Pwnc yn y Cynulliad ym Mae Caerdydd, a chaiff y wybodaeth ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Mae'r Pwyllgorau Rhanbarth yn cyfarfod yn rheolaidd mewn cymunedau lleol ledled Cymru ac mae manylion y cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi trwy'r wasg a'r cyfryngau lleol.

## Darlledu trafodion y Cynulliad

Mae pob Cyfarfod Llawn a rhai o gyfarfodydd y Pwyllgorau yn cael eu darlledu'n fyw ar y sianel deledu ddigidol S4C 2. Gallwch wylio cyfarfodydd byw ac archif drwy gyfrwng y we fyd eang **www.gweddarlledu.cymru.gov.uk**

## Canolfannau Ymwelwyr ac Arddangosfeydd

Mae gan y Cynulliad ddwy Ganolfan Ymwelwyr ac Arddangosfeydd. Mae 'Glanfa'r Cynulliad' ym Mae Caerdydd ac mae Canolfan Ymwelwyr Gogledd Cymru ym Mae Colwyn.

Mae'r Canolfannau'n rhoi profiad rhyngweithiol i ymwelwyr, gyda'r bwriad o wneud dysgu am y Cynulliad yn ddiddorol ac yn gyffrous. Mae'r arddangosfeydd yn rhoi gwybodaeth am y Cynulliad a'i rôl a'i gyfrifoldebau yng Nghymru, ac yn rhoi cyfle i ymwelwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phwy yw pwy, beth sy'n digwydd a sut mae'r Cynulliad yn gweithio. Mae siopau yn y ddwy ganolfan sy'n gwerthu eitemau amrywiol wedi eu cynhyrchu mewn gwahanol rannau o Gymru gydag enw'r Cynulliad arnynt. Mae croeso i ymwelwyr alw heibio'r canolfannau neu gysylltu ymlaen llaw i drefnu teithiau tywysedig.

## Y Cynulliad yn y Rhanbarthau

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i gyrraedd holl bobl Cymru. Mae staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn gweithio yn y rhanbarthau i ddatblygu cysylltiadau gyda grwpiau lleol, cymunedol a rhanbarthol trwy fod yn bresennol mewn gwahanol ddigwyddiadau ac arddangosfeydd. Trwy fynd i ddigwyddiadau, a gosod stondinau mewn gwahanol leoliadau, mae'r staff yn hybu gwaith y Cynulliad ac yn clywed barn y bobl leol.